***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

## ATODLEN 1

## GORFODI

*Y pŵer i fynd i mewn i fangreoedd*

6 (1) Yn ddarostyngedig i'r paragraff hwn, bydd gan swyddog awdurdod lleol yr hawl i fynd i mewn i unrhyw fangre ar bob adeg resymol, ar yr amod ei fod yn gallu dangos, ar gais, ryw ddogfen a awdurdodwyd yn briodol sy'n profi ei awdurdod, a hynny—

(a) at ddibenion canfod achos o fethu â chydymffurfio â gofynion y Mesur hwn, y mae'n ddyletswydd ar awdurdod lleol eu gorfodi, yn y fangre neu mewn perthynas â hi,

(b) at ddibenion canfod a oes amgylchiadau yn bod a fyddai'n awdurdodi neu'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol gymryd unrhyw gamau, neu wneud unrhyw waith, o dan y Mesur hwn,

(c) er mwyn i'r awdurdod lleol gymryd unrhyw gamau, neu wneud unrhyw waith, a awdurdodir neu sy'n ofynnol gan y Mesur hwn, neu gan orchymyn a wnaed o dan y Mesur hwn, neu

(d) yn gyffredinol er mwyn i'r awdurdod lleol gyflawni ei swyddogaethau o dan y Mesur hwn.

(2) Ni cheir mynnu'r hawl i fynd i mewn i fangre oni roddwyd 24 awr o rybudd i'r meddiannwr o'r bwriad i fynd i mewn.

(3) Os gellir bodloni ynad heddwch gyda hysbysiaeth ysgrifenedig ar lw—

(a) y gwrthodwyd mynediad i unrhyw fangre, neu y dirnadwyd gwrthodiad o'r fath, neu os nad yw'r fangre wedi'i meddiannu, neu os yw'r meddiannwr yn absennol dros dro, neu os yw'r achos yn un brys, neu pe bai cais i gael mynediad yn trechu'r bwriad, a

(b) bod sail resymol dros gael mynd i mewn i'r fangre am unrhyw un o'r rhesymau y cyfeirir atynt yn is-baragraff (1) uchod,

caiff yr ynad, gan warant drwy law'r ynad, awdurdodi'r awdurdod lleol drwy unrhyw swyddog awdurdodedig i gael mynediad i'r fangre, a hynny gan ddefnyddio grym, os bydd angen.

(4) Ni cheir cyhoeddi gwarant o dan is-baragraff (3) uchod oni bai y bodlonwyd yr ustus—

(a) y rhoddwyd hysbysiad o'r bwriad i wneud cais am warant i'r meddiannwr, neu

(b) nad yw'r fangre wedi'i meddiannu, neu fod y meddiannwr yn absennol dros dro, neu fod yr achos yn un brys, neu y byddai rhoi'r hysbysiad yn trechu'r bwriad o gael mynd i mewn.

(5) Caiff swyddog awdurdodedig sy'n mynd i mewn i fangre yn rhinwedd y paragraff hwn neu warant a gyhoeddwyd o dan y paragraff hwn fynd gydag ef unrhyw bersonau eraill y gall fod eu hangen, ac os aeth y swyddog i mewn i fangre nad oedd wedi'i meddiannu yn rhinwedd y cyfryw warant, rhaid iddo ei gadael wedi'i diogelu yn erbyn tresmaswyr yr un mor effeithiol ag ydoedd pan aeth i mewn iddi.

(6) Bydd gwarant a gyhoeddwyd o dan y paragraff hwn yn parhau i fod mewn grym nes y diwallwyd y rheswm yr oedd angen cael mynediad iddi.